



YN Y GEGIN

Melysgybolfa

Dyma bwdin gwych i chi ei wneud efo'ch plant. Yn syml, rhwch y cynhwysion i gyd mewn bowlen a chymysgwch popeth ynghyd. Po fwyaf blêr po fwyaf blasus!

Gellir ychwanegu pob math o ffrwythau i'r pwdin hwn. Cadwch at ffefrynnau eich teulu neu beth am roi cynnig ar rywbeth newydd?

Cynhwysion:

- Nythod meringue (un i bob person)
- Mefus (llond llaw i bob person)
- Hufen dwbl (2 lwy fwrdd i bob person)

YN Y GEGIN - Melysgybolfa

Byddwch hefyd angen:

- Chwisg trydan
- Bowlen gymysgu

Dull:

- Chwisgiwch yr hufen dwbl nes bydd yn ffurfio pigau meddal
- Torrwch pob nyth meringue yn ddarnau
- Torrwch y mefus yn eu hanner (neu chwarteri)
- Ychwanegwch y darnau meringue a'r darnau mefus i'r hufen yn y fowlen a'u cymysgu i gyd gyda'i gilydd

AWGRYM GWYCH:

I wneud y pwdin yn iachach gallwch roi iogwrt yn hytrach na hufen

